# CYRRAEDD LLWYBRAU CERDDED AR Y BWS

# Rhosili



TEITHIAU CERDDED BYR SY'N GYSYLLTIEDIG Â LLWYBRAU BYSUS

Gŵyr Tirwedd Cenedlaethol
Gower National Landscape

## CYRRAEDD LLWYBRAU CERDDED AR Y BWS
## Rhosili

**Beth am adael y car gartref? Teithiwch ar y bws a gallwch helpu i leihau eich ôl troed carbon! Beth am adael i rywun arall yrru wrth i chi fwynhau'r golygfeydd hardd?**

### GWYBODAETH AM FYSUS

**Dydd Llun i ddydd Sadwrn** (oddeutu bob awr),
**dydd Sul** (dim gwasanaeth):
**Rhif 118 neu 119 Abertawe - Rhosili**
Mae'r bysus yn teithio rhwng 07:30 a 22:00
*Gwiriwch y manylion cyn teithio*
**Y gweithredwr presennol ar gyfer y llwybrau hyn yw Adventure Travel**
**www.adventuretravel.cymru**
**Traveline Cymru 0800 464 00 00**
**www.traveline.cymru**

### UCHAFBWYNTIAU'R DAITH

- Mae'r llwybr yn wastad ac yn galed tuag at Wylfa Gwylwyr y Glannau gyda golygfeydd o Ben Pyrod.
- Mae golygfeydd gwych ym mhob cyfeiriad.
- Cydiwch yn eich camera i dynnu llun o fachlud haul syfrdanol.
- Dewch i weld y blodau hyfryd yn y gwanwyn.
- Gallwch weld brain coesgoch, ehedyddion, hebogiaid tramor a bwncathod ar hyd y llwybr hwn.
- Cadwch lygad am The Vile, system gaeau ganoloesol sydd bellach yn cael ei rheoli ar gyfer bywyd gwyllt.
- Enwyd y traeth ymysg 10 traeth gorau Cymru ac mae wedi cyrraedd y brig ar sawl achlysur.

### MANYLION CYSWLLT DEFNYDDIOL

**www.croesobaeabertawe.com**
**www.abertawe.gov.uk/tirweddgenedlaetholgwyr**
**facebook.com/gowernationallandscape**
**@TirweddGenedlaetholGwyr**



**Dechrau a Gorffen:** Safle bws yn Rhosili.

**Pellter/amser:** Tua 2 filltir (3.2km), 1.5 awr.

**Natur y tir:** Mae arwyneb y tir yn amrywio o galed a llyfn i feddal ac anwastad. Mae dau ris, llethr fer ond nid oes unrhyw gamfeydd.

**Diogelwch:** Byddwch yn ymwybodol o'r clogwyni ar hyd y llwybr. Mae'r sarn arw i Ben Pyrod yn llanwol - gwiriwch yr wybodaeth a arddangosir o flaen Gwylfa Gwylwyr y Glannau. Gwisgwch ddillad ac esgidiau sy'n addas ar gyfer yr amodau a'r tymor.

**Lluniaeth:** Caffis, tafarn a siopau ym mhentref Rhosili.

**Amwynderau:** Mae toiledau cyhoeddus, lleoedd newid a chawodydd awyr agored ym Maes Parcio Ymddiriedolaeth Genedlaethol Rhosili (24 awr; am ddim). Toiledau cyhoeddus yng Ngorsaf Fysus Abertawe (05:00 - 23:15; codir tâl o 30c).

- Dechreuwch y daith ar ddiwedd y llwybr bysus yn Rhosili ac yna cerddwch i lawr, heibio maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a siop yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ewch drwy gât i gyrraedd llwybr graean cadarn sydd wedi'i greu'n dda. Dilynwch y llwybr hwn am tua milltir nes i chi gyrraedd llwybr glaswellt byr sy'n arwain at Wylfa Gwylwyr y Glannau gyda golygfeydd o Ben Pyrod.
- O Wylfa Gwylwyr y Glannau trowch i'r chwith a chyda'r môr ar eich de dilynwch frig y clogwyni tuag at gornel y wal gerrig. Cerddwch nes i chi gyrraedd gât fach yn y wal.
- Ewch drwy'r gât a cherddwch yn ôl i'r tir tuag at bentref Rhosili. Dilynwch y llwybr drwy'r cae, gan fynd drwy ddwy gât arall. Ar ôl tua ¼ milltir (0.4km) dilynwch y llwybr wrth iddo droi i'r chwith ac yna i'r dde. Ar ôl tua ¼ milltir arall (0.5km), bydd y llwybr yn troi i'r chwith ac ar ôl pellter byr arall bydd yn cyrraedd y brif ffordd yn Rhosili.
- Trowch i'r chwith i'r brif ffordd ac mae'r safle bysus ychydig lathenni o'ch blaen, ar y dde.

Mae taflenni eraill yn y gyfres hon ar gael o'r rhesel y tu mewn i'r fynedfa i **Ganolfan Ddinesig Abertawe**, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN, neu gallwch eu lawrlwytho fel PDF yn **www.abertawe.gov.uk/cerdded**.

*Roedd yr wybodaeth yn gywir wrth fynd i'r wasg - Chwefror 2025.*

Gŵyr Tirwedd Cenedlaethol / Gower National Landscape
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government
Cyngor Abertawe / Swansea Council

